BWLETIN DIOGELU

Mehefin 2025

NOD Y BWLETIN HWN YW PWYSLEISIO PWYSIGRWYDD DIOGELWCH AR DIR EIN HYSGOL. MAE SICRHAU AMGYLCHEDD DIOGEL YN GYFRIFOLDEB SY'N GOFYN AM GYDWEITHREDIAD PAWB YN YSGOL DEWI SANT.

BETH RYDYN NI'N EI WNEUD YN BAROD .....

1. RHAID I BOB YMWELYDD FYND I'R BRIF SWYDDFA WRTH GYRRAEDD AC ARWYDDO I MEWN.

2. MAE'R HOLL STAFF YN CAEL EU GWIRIO GAN DBS AC YN DERBYN HYFFORDDIANT DIOGELU BLYNYDDOL.

3. MAE GENNYM BWYLLGOR O LYWODRAETHWYR PENODEDIG I DRAFOD IECHYD A DIOGELWCH Y SAFLE.

4. RYDYM YN YMARFER GWEITHDREFNAU BRYS AR GYFER SEFYLLFAOEDD AMRYWIOL GAN GYNNWYS CLOI AC YMARFERION TÂN.

5. MAE GENNYM SYSTEMAU CAMERA YN MONITRO'R SAFLE.

6. RYDYM BOB AMSER YN SICRHAU'R NIFER CYWIR O STAFF AR DDYLETSWYDD. MAE'R AELODAU STAFF YMA YN GWISGO SIACEDI MELYN.

7. SWYDDOGION CYMORTH CYNTAF - MAE GENNYM DÎM O STAFF SYDD WEDI'U HYFFORDDI I ROI CYMORTH CYNTAF.

8. LLEOLIR DIFFIBIWLYDD AR Y SAFLE.

9. MAE POB DRWS ALLANOL A GATIAU WEDI EU CLOI.

TOP TIPS

DIOGEWLCH Y SAFLE. SUT ALLWCH CHI HELPU?

COFIWCH BARCHU RHEOLAU'R MAES PARCIO. PAN FYDD Y GIATIAU AR GAU, MAE'R MAES PARCIO YN LLAWN. PEIDIWCH Â CHEISIO CAEL MYNEDIAD.

OS SYLWCH AR UNRHYW BETH SY'N PERI PRYDER GYDA'R ADEILAD / SAFLE, RHOWCH WYBOD I STAFF Y BRIF SWYDDFA.

COFIWCH ORUCHWYLIO EICH PLANT AR DDIWEDD Y DIWRNOD YSGOL WRTH I CHI ADAEL Y SAFLE. DYLAI POB TEULU ANELU AT ADAEL Y SAFLE MEWN MODD PRYDLON A THREFNUS AR ÔL I BLANT GAEL EU TROSGLWYDDO I'CH GOFAL.

MAE DRYSAU'N AGOR AM 8:40YB, PEIDIWCH Â CHYRRAEDD Y SAFLE YN RHY FUAN. (12:45YP AR GYFER MEITHRIN PRYNHAWN)

PEIDIWCH Â DOD Â'CH CI AR Y SAFLE. POLISI CYNGOR SIR DDINBYCH YW HYN.

MAE YSGOL DEWI SANT YN SAFLE DIM YSMYGU / DIM 'VAPIO'. PARCHWCH HYN OS GWELWCH YN DDA.

PEIDIWCH Â DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL TRA'N GYRRU AR Y SAFLE.

MAE'R ARDAL A AMLYGIR MEWN MELYN ISOD WEDI'I DYNODI AR GYFER TACSIS A MEITHRINFEYDD PREIFAT AR DDIWEDD Y DIWRNOD YSGOL.



MAE EIN TÎM DIOGELU AR GAEL I DRAFOD UNRHYW BRYDERON SYDD GANDDOCH.

